Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Chwefror 2025

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Bwriad ein hadroddiad yw llywio'r ddadl ddydd Mawrth 4 Chwefror 2025.

**2.** Mae ein gwaith craffu wedi ei lywio gan y canlynol:

- tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("y Gweinidog"); Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ("Ysgrifennydd y Cabinet"), a'r Prif Weinidog.
- sesiynau tystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ddydd Iau 16 Ionawr 2025;
- tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddarparwyd gan gyrff y sector cyhoeddus yn ystod gwaith craffu cyffredinol yn ystod hydref 2024;
- safbwyntiau rhanddeiliaid mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid; a
- safbwyntiau rhanddeiliaid eraill ac aelodau o'r cyhoedd mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn.

**3.** Mae ein hadroddiad wedi ei strwythuro yn unol â'r tri phortffolio gweinidogol a'r modd maent yn cyd-fynd â'n cylch gorchwyl:

- Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon (Y Gweinidog);
- Y Gymraeg (Ysgrifennydd y Cabinet);
- Cysylltiadau Rhyngwladol (y Prif Weinidog).

**4.** Cymerodd Julie Morgan AS a Jenny Rathbone AS ran yn ein gwaith craffu ar 16 Ionawr 2025 yn lle Lee Waters AS a Mick Antoniw AS.

# 2. Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

## Trosolwg

**5.** Ar y cyfan, mae'r cyllid refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer elfennau Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon ein cylch gwaith wedi cynyddu o £178.4 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 i £203.4 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2025-26 (14 y cant o gynnydd mewn termau arian parod). Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn cynnwys:

- Cyllid refeniw: £130.1 miliwn. Mae hyn yn 6 y cant o gynnydd mewn termau arian parod o gymharu â'r £123.0 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Heb gyfrif am chwyddiant, mae cyllid refeniw cyffredinol wedi dychwelyd i'w lefel yn 2023-24 pan oedd hefyd yn £130.1 miliwn. Heblaw am Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, mae cyllid refeniw ar gyfer cyrff hyd braich a gynorthwyir gan y portffolio hwn i gyd yn parhau i fod ychydig yn is nag yr oeddent yn 2023-24, pan mae symiau nad ydynt yn arian parod yn cael eu heithrio;

- Cyllid cyfalaf: £73.3 miliwn. Mae hyn yn 32 y cant o gynnydd mewn termau arian parod o gymharu â'r £54.4 miliwn yn y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.

**6.** Mae'r dyraniadau hyn yn cwmpasu'r Camau Gweithredu a ganlyn:

- Diwylliant a'r celfyddydau: yn cynnwys cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a chymorth ar gyfer diwylliant lleol a chwaraeon;

- Chwaraeon a gweithgarwch corfforol, sy'n darparu cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru:

- Yr amgylchedd hanesyddol: sy'n cael ei gyllido yn bennaf drwy Cadw (adran treftadaeth Llywodraeth Cymru) ond sydd hefyd yn cynnwys yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

- Cymru Greadigol: is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru.

**7.** Mae Tabl 1 yn cymharu'r dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Camau Gweithredu hyn yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 â'r dyraniadau yn y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.

***Tabl 1 Crynodeb o ddyraniadau ar gyfer Camau Gweithredu perthnasol***

| Camau gweithredu | Math o gyllid | Gwaelodlin ddiwygiedig 2025-26 (£miliwn) | Cyllideb Ddrafft 2025-26 (£miliwn) | Cynnydd mewn termau arian parod |
|---|---|---|---|---|
| **Diwylliant a'r celfyddydau** | Refeniw | £79.0 | £83.6 | 6% |
| | Cyfalaf | £32.1 | £40.2 | 25% |
| **Chwaraeon a gweithgarwch corfforol** | Refeniw | £21.8 | £22.6 | 4% |
| | Cyfalaf | £8.0 | £9.5 | 19% |
| **Yr amgylchedd hanesyddol** | Refeniw | £16.9 | £17.4 | 3% |
| | Cyfalaf | £10.3 | £16.6 | 61% |
| **Cymru Greadigol** | Refeniw | £5.3 | £6.5 | 23% |
| | Cyfalaf | £5.0 | £7.0 | 40% |

## Uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector

**8.** Mae tystiolaeth y Gweinidog yn dweud y bydd y codiad refeniw cyffredinol ar draws y sector yn galluogi cyrff hyd braich i reoli pwysau costau chwyddiant, cynllunio ar gyfer dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26 a chyfrannu at gostau cynnal parhaus Celf.[1] Pan ofynnwyd a oedd hyn yn realistig, gan fod y codiad refeniw yn dychwelyd y sector i lefelau cyllido 2023-24 yn unig, dywedodd y Gweinidog:

> *"I think it's worth starting the committee in the context of where we are now and where, perhaps, we have been in the past. This is a budget that is a step in the right direction. This is an increase of 3.6 per cent to arm's-length bodies and is an increase to the budget overall across the arts, culture and sport portfolio. And if we just look at the £5 million in revenue and £18.4 million in capital, our capital expenditure is a real success story there."*[2]

[1] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, 16 Ionawr 2025, tudalen 3

[2] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 142

**9.** Gofynnom a oedd y Gweinidog yn cytuno â Chyngor y Celfyddydau fod y sector diwylliant yn wynebu argyfwng ar hyn o bryd.[3] Dywedodd:

> *"I wouldn't describe it as a crisis myself. I think, no doubt, in that context that we've all heard already this morning, and had the opportunity to discuss many a time now, the arts have still gone on and delivered, and we have seen that in constituencies right across Wales, Chair. And we have supported the arts through those challenging times as well. So, I wouldn't myself describe it as a crisis. There are challenges, and we will work collaboratively and in partnership with the sector to overcome those challenges, like we have done in previous years."*[4]

**10.** Mae dadansoddiad diweddar gan Ymchwil y Senedd o wariant llywodraethau yng Nghymru a chenhedloedd Ewropeaidd eraill yn dangos bod Cymru:

- Yn drydydd o'r gwaelod o ran gwariant y pen ar wasanaethau hamdden a chwaraeon, sef £59.75 y pen o gymharu â £66.18 y pen yn y Deyrnas Unedig;
- Yn ail o'r gwaelod o ran gwariant y pen ar wasanaethau diwylliannol, sef £69.68 y pen o'i gymharu â £91.12 y pen yn y Deyrnas Unedig.[5]

**11.** Pan ofynnwyd a oedd Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn drobwynt yn null cyffredinol Llywodraeth Cymru o gyllido diwylliant a chwaraeon, dywedodd y Gweinidog:

> *"Well, it's a step in the right direction, isn't it, and it's the first step in the right direction. I'm not prepared to sit here today and announce budgets for additional years ahead when we don't know what the settlement will be for the Welsh Government budget overall, but it does provide a sense of where we want to take culture budgets, and the importance we place on the budget of this side of responsibilities of the Welsh Government, for all the things that this committee is aware of, what the*

[3] IFRCS35 Cyngor Celfyddydau Cymru
[4] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 182
[5] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, Ffigurau 1 a 2

> *portfolio offers, whether that be in health, and all of those other particular things.*
>
> *I can't say today, Chair, that we're going to announce a significant increase again and again. What I would like to say is that this proves that we take the arts and culture sector seriously. This is an increase of the budget. It's our first budget since the general election with a partner who's willing to work with the Welsh Government and devolution. I'd like to hope that sets a sense of direction to the industry: 'We take you seriously. We will work with you in the, no doubt, still challenging times'. It does set that sense of direction where we want to take this. Both the First Minister and I are very keen to support the sector where we can, and we have done."*[6]

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr

**12.** Ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym mai ei phrif bryder ynghylch dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2025-26 oedd ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.[7] Gan amlygu maint y costau—yr amcangyfrifir eu bod yn £0.5 miliwn yng nghyd-destun £0.9 miliwn o godiad refeniw—a'r amser byr sydd ar gael i gynllunio, esboniodd cynrychiolwyr Amgueddfa Cymru:

> *"That hasn't been specifically addressed so far in the budget announcements, but that doesn't mean that it's off the table. I think what we've been led to believe is that there are further discussions to be had about whether the Welsh Government has the capacity to cover that for us as arm's-length bodies."*[8]

**13.** Yn yr un modd, ysgrifennodd Community Leisure UK atom ym mis Rhagfyr 2024, yn amlinellu pryderon am yr effaith 'uniongyrchol, dwfn a hirdymor' ar yr elusennau a'r mentrau cymdeithasol sy'n aelodau o'r corff hwnnw:

> *"The impact of the increase in national insurance, which comes on top of a range of other financial challenges, will impact on*

[6] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 148 i 149
[7] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, paragraff 12
[8] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, paragraff 12

> *our members' ability to retain their staffing levels and to improve and develop our services to the community, which will in turn ultimately impact on their physical and mental health, wellbeing and economic prospects".*[9]

**14.** Pan ofynnwyd iddo am effaith y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyrff hyd braich a sefydliadau eraill yn y sector, canolbwyntiodd y Gweinidog ar gyrff hyd braich a'r sector cyhoeddus. Esboniodd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gyllido'r costau i gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru (amcangyfrif Llywodraeth Cymru yw £253 miliwn), ond nad oedd manylion ar gael eto ynghylch faint o gyllid y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ddarparu. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn trafod y mater gyda chyrff hyd braich, ac y bydd yn ceisio eu cynorthwyo ble bynnag y byddai modd.[10] Dywedodd nad oedd yn 'poeni'n ormodol' nad oedd yn glir a fyddai'r diffiniad o 'sector cyhoeddus' yn cynnwys cyrff hyd braich at ddibenion cymhwysedd ar gyfer cymorth gan y llywodraeth. Dywedodd:

> *"I'm confident that we'll have the detail in front of us, and we'll have that in enough time to have those conversations with colleagues."*[11]

## Rolau a Chyfrifoldebau

**15.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff hyd braich wneud mwy gyda llai er mwyn cyllido galwadau ychwanegol, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl i gyrff gyflawni'r hyn a nodwyd yn eu llythyrau cylch gwaith. Disgrifiodd y Gyllideb Ddrafft fel un sy'n darparu:

> *"[...] a better picture for them, isn't it? It's an increase in their budget, and they have more scope to play with now than perhaps we expected before the general election last year. Arm's-length bodies will be developing their operational plans for the year—that'll be the point where we'll monitor that*

---

[9] Llythyr oddi wrth Community Leisure UK – 5 Rhagfyr 2024
[10] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 169 i 170
[11] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 179

> *progress and see what they come up with and how they will achieve that. But I'm not expecting drastic change, Chair."*[12]

**16.** Yn benodol, buom yn trafod rolau Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai ei flaenoriaeth oedd dod o hyd i'r model mwyaf effeithlon, ac roedd gwaith ar y gweill i nodi dewisiadau posibl.[13]

**17.** Buom hefyd yn trafod cynaliadwyedd ariannol Cadw, gan gynnwys y dybiaeth yn y Gyllideb Ddrafft o 5 y cant o gynnydd mewn incwm masnachol. Eglurodd swyddogion y Gweinidog fod ffrydiau incwm Cadw wedi cynyddu'n 'sylweddol' yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gan gydnabod newid ymddygiad yn economi'r sector ymwelwyr a lleihad yn nifer yr ymwelwyr, roeddent yn dweud y byddai'r cynnydd mewn cyllid refeniw wedi ei anelu at:

> *"[...] those front-line services and how we can ensure that the offer that we've got to people coming along to visitor centres is as good as we can make it".*[14]

**18.** Gan gydnabod nad yw lefel a math yr wybodaeth fanwl sydd ar gael am gyrff hyd braich fel Amgueddfa Cymru ar gael fel mater o drefn i Cadw, oherwydd ei safle o fewn y llywodraeth, dywedodd y Gweinidog y byddai'n fodlon darparu rhagor o wybodaeth i hwyluso gwaith craffu.[15]

## Cyllid cyfalaf

**19.** Ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"I would love us to be in the position that Cadw is in, where all of the capital funding comes as part of their annual allocation from the Government. But because we get it either through grant in aid or as projects, that creates two very different scenarios for us. When it's grant in aid, we obviously have an understanding about how it can be spent, there are guidelines, et cetera, and Kate and I are held accountable that it is spent appropriately and on time. But when it's project allocation,*

---

[12] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 143
[13] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 294 a 296
[14] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 302 i 303
[15] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 306

> *then we have to make the case, and that can be a very lengthy process."*[16]

**20.** Pan ofynnwyd iddo pa ystyriaeth yr oedd wedi ei rhoi i ddarparu'r holl gyllid cyfalaf ar gyfer sefydliadau fel Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol drwy gyllid cymorth grant yn hytrach nag achosion busnes unigol, cydnabu'r Gweinidog ein hargymhelliad diweddar[17] ar y mater hwn. Gan gadarnhau y byddai'n ymateb maes o law, dywedodd:

> *"[...] I am actively considering if we can streamline that process to make it a better process, but I just want to place the caveat on that as well: this is public money, and it needs to be spent in the proper way. But if there are solutions to be found to some of this and we can help manage that process in a better way, then I would never be against that."*[18]

**21.** Buom yn trafod â'r Gweinidog pa bosibilrwydd sydd ar sail y llywodraeth gyfan i gyllido prosiectau cyfalaf sylweddol o fewn y sector diwylliant pe bai angen. Pwysleisiodd y Gweinidog y dyraniadau cyfalaf uwch yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, a ddisgrifiodd fel tystiolaeth o ymrwymiad cyffredinol y Llywodraeth i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.[19] Cyfeiriodd swyddog y Gweinidog at y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, y gellir ei defnyddio i ddyrannu cyllid cyfalaf i brosiectau ac adrannau ar draws Llywodraeth Cymru.[20]

## Gwariant ataliol

**22.** Roedd y Gweinidog yn dweud yn y dystiolaeth ysgrifenedig bod y Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ei "ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl".[21] Mewn tystiolaeth

---

[16] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, paragraff 13
[17] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, argymhelliad 5
[18] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 246 a 248
[19] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 252
[20] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 256
[21] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, 16 Ionawr 2025, tudalen 8

lafar, rhoddodd y Gweinidog enghreifftiau o wariant trawslywodraethol ar atal—gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau chwaraeon a chyllid ar gyfer rhaglenni fel Pwysau Iach, Cymru Iach—a gwariant llywodraeth leol ar gyfleusterau a gwasanaethau lleol a chymunedol. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Where there's more that we can do and help with in that space, then we should be looking at that. I think I've mentioned before the work, in particular, around mental health and the role that sport can play in that—whether that be playing sport or actually just accessing some of the sport, and it's the same for the arts and culture sector as well. I'm hoping that I will continue to drive that initiative around mental health, in particular."*[22]

**23.** Pan holwyd ymhellach pwy oedd yn gyfrifol am yrru'r 'mwy o flaenoriaethu traws-sector' y cyfeiriwyd ato yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fel rhywbeth sydd ei angen i sicrhau manteision iechyd ataliol chwaraeon,[23] dywedodd y Gweinidog:

> *"I think that we'll all take that view, won't we? So, the Cabinet will take the view on that, Chair. There are areas where we already do that. Where we can strengthen that and look to do it, we will. The conversations I'm having with the Minister for mental health demonstrate that already."*[24]

**24.** Fe wnaethom ofyn a oedd angen gwneud achos cryfach o fewn y llywodraeth i gynyddu gwariant ar fesurau ataliol, yn enwedig a ellid neu a ddylid ystyried cynnwys atal fel categori gwariant o fewn cyllidebau'r dyfodol. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi ym manteision ataliol celf a chwaraeon, ond y byddai'n ystyried ymhellach y pwynt am gyflwyno yn y gyllideb.[25]

---

[22] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2026, paragraffau 267 i 269
[23] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, 16 Ionawr 2025, tudalen 9
[24] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 278
[25] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 288

## Ein barn ni

### Uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector

**25.** Yn ystod ein hymchwiliad diweddar i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, buom yn siarad â rhanddeiliaid ar draws y sectorau diwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol. Ar sail eu tystiolaeth, daethom i'r casgliad bod tangyllido hanesyddol o'r sector gan Lywodraeth Cymru, wedi ei waethygu gan ostyngiadau mewn cyllid refeniw yn y blynyddoedd diwethaf, yn golygu:

> *"Mae'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn fregus a heb ddigon o adnoddau sydd wedi arwain at fynediad annigonol at ddiwylliant a chwaraeon ledled y wlad, sy'n tanseilio ymdrechion i ehangu mynediad gan ein cyrff cenedlaethol. Mae'r mynediad annigonol hwn yn debygol o greithio ffrwyth gwaith diwylliant a chwaraeon Cymru am flynyddoedd i ddod, oherwydd bydd llai o artistiaid a phencampwyr yfory wedi cael y cychwyn a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Nid moethau ar gyfer cyfnodau llewyrchus yn unig mo diwylliant a chwaraeon. Maent yn edafedd hanfodol yng ngwead yr hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw. Mae'r seilwaith cymdeithasol y mae diwylliant a chwaraeon yn ei feithrin yr un mor bwysig i genedl â'i seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, ond mae wedi'i esgeuluso gan Lywodraethau Cymru dro ar ôl tro."*[26]

**26.** Nodwn fod y deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft yn rhybuddio:

> *"Er gwaethaf y cynnydd yng ngwariant y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus y tu hwnt i hynny'n edrych yn heriol. [...]*
>
> *Mae cynnydd o 5% mewn termau real yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24 ar sail tebyg am debyg. Mae*

[26] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon

> *amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn awgrymu y bydd cynnydd bychan.*"[27]

**27.** Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cydnabod barn y Gweinidog bod dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn 'gam i'r cyfeiriad cywir'.[28]

**28.** Fodd bynnag, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom ynghylch dyfnder ac effaith y sefyllfa gyllido, a defnydd y sector ei hun o dermau fel 'argyfwng', mae gennym bryderon sylweddol ynghylch a yw'r Gweinidog yn gwerthfawrogi'n llawn faint o bwysau sydd ar y sector.

**29.** Rhannodd y Gweinidog nifer o enghreifftiau penodol gyda ni o gyllid Llywodraeth Cymru yn galluogi sefydliadau neu leoliadau i aros yn agored neu osgoi gorfod cwtogi eu gwasanaethau. Rydym yn cytuno bod yr enghreifftiau hyn yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall cyllid Llywodraeth Cymru ei chael pan fydd ar gael. Yn anffodus, nid yw cyllid bob amser ar gael, a chlywsom lawer mwy o enghreifftiau drwy gydol ein hymchwiliad diweddar am sefydliadau a lleoliadau eraill sy'n ei chael hi'n anodd.

**30.** Yn ein hadroddiad, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i "gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon hyd nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg".[29] Mae'r dyraniadau refeniw yn y Gyllideb Ddrafft yn gynnydd ar linell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, ond, o ystyried chwyddiant, maent yn parhau i fod yn is nag yn 2023-24. Mae unrhyw gynnydd yn well na dim, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto bod y dyraniadau'n ddigonol i wella'r sefyllfa'n sylweddol, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau chwyddiant, dyfarniad cyflog posibl yn y sector cyhoeddus, a chynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.

**31.** Rydym yn siomedig nad oedd y Gweinidog yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd i ni fod dyraniadau 2025-26 yn cynrychioli trobwynt yn null Llywodraeth Cymru o gyllido'r sector. Deallwn nad yw mewn sefyllfa i ragweld Cyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd dilynol, ond gresyn na fanteisiodd ar y cyfle a ddarparwyd gan y sesiwn dystiolaeth i nodi ei uchelgeisiau a'i ddyheadau, ac esbonio sut bydd yn eiriol dros y sectorau wrth i gynigion y Gyllideb Derfynol gael eu datblygu.

[27] Llywodraeth Cymru, Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru 2024, Rhagfyr 2024, tudalen 3
[28] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 142
[29] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, argymhelliad 1

**Argymhelliad 1.** Wrth ymateb i argymhelliad 1 ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 dan y teitl 'Degawd o doriadau: effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon', dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n rhannu ein huchelgais i gyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**32.** Gallai'r newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr gynyddu costau i sefydliadau ar draws y sector, ac rydym wedi clywed gan Community Leisure UK, ymhlith eraill, am y pwysau y gallai hyn ei achosi.[30]

**33.** Mae cyrff hyd braich yn y sector yn wynebu anawsterau wrth gynllunio eu gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gan ei bod yn parhau i fod yn aneglur a fydd cymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru ar gael, ynteu a fydd angen iddynt dalu'r costau ychwanegol drwy eu dyraniadau refeniw. Mae maint y mater yn sylweddol: er enghraifft, mae costau'r cyfraniad ychwanegol o £0.5 miliwn gan gyflogwyr ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cynrychioli mwy na hanner y £0.9 miliwn o gynnydd amcangyfrifedig yn y dyraniad refeniw.[31] Rydym yn croesawu cytundeb y Gweinidog[32] i rannu rhagor o wybodaeth â ni wrth i drafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff hyd braich fynd rhagddynt.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gadarnhau fel mater o frys yr amserlenni ar gyfer sicrhau eglurder gan gyrff hyd braich yn y sector diwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol ynghylch a fyddant yn gymwys i gael unrhyw gymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru i dalu am gyfraniadau yswiriant gwladol uwch cyflogwyr;
- Ysgrifennu atom o fewn pedair wythnos i'r adeg y caiff Llywodraeth Cymru gadarnhad o'r cymorth a fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i amlinellu ar gyfer pob un o'r cyrff hyd braich pa gyfran o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd a fydd yn cael ei

[30] Llythyr oddi wrth Community Leisure UK – 5 Rhagfyr 2024
[31] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 11 Rhagfyr 2024, paragraff 12
[32] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 174

thalu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru, a pha gyfran y bydd angen i bob corff ei thalu o'i ddyraniad refeniw.

## Rolau a Chyfrifoldebau

**34.** Rhaid defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, fel y daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad diweddar ar effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, rhaid i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r hyn y gall cyrff hyd braich ei gyflawni'n realistig fod yn gymesur â lefel y cyllid. Gan hynny, rydym yn ailadrodd argymhelliad 11 o'r adroddiad hwnnw, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu llythyrau cylch gwaith cyrff hyd braich i sicrhau bod y gofynion yn "glir ac yn bendant, ac yn gymesur â lefel y cyllid".[33]

**35.** Rydym yn nodi llythyr y Gweinidog dyddiedig 5 Rhagfyr 2024, sy'n amlinellu gwaith i adolygu'r berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.[34] Hoffem gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo.

**36.** Mae ein gwaith craffu, ar brydiau, yn cael ei lesteirio gan ddiffyg lefelau tebyg o wybodaeth fanwl am weithrediad, perfformiad a gwariant Cadw sydd ar gael yn adroddiadau blynyddol cyrff hyd braich fel Amgueddfa Cymru. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog yn ystod y sesiwn i ddarparu'r wybodaeth hon, yn amodol ar ystyried y fformat priodol.[35]

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Yn ei hymateb i'n hadroddiad, roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddewisiadau sy'n dod i'r amlwg, a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer penderfyniad terfynol a gweithredu;

- Ymrwymo i roi gwybodaeth i ni'n flynyddol am weithrediad, perfformiad a gwariant Cadw.

[33] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, argymhelliad 11
[34] Llythyr gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol – 5 Rhagfyr 2024
[35] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 306

## Cyllid cyfalaf

**37.** Rydym yn ailadrodd argymhelliad 5 o'n hadroddiad diweddar, lle'r oeddem yn galw ar Lywodraeth Cymru i "rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru".[36] Rydym yn croesawu awgrym y Gweinidog yn ystod y sesiwn dystiolaeth ei fod yn 'ystyried o ddifri' sut gellid gwella'r system achosion busnes.[37]

**38.** Rydym hefyd yn croesawu'r cynnig gan swyddog y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am y potensial i gael cyllid cyfalaf ychwanegol drwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.[38]

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y broses ar gyfer cael mynediad at gyllid cyfalaf drwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gan gynnwys sut caiff prosiectau eu blaenoriaethu a pha geisiadau sydd wedi eu cyflwyno (neu sy'n cael eu paratoi) ar gyfer prosiectau o fewn y sector diwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol.

## Gwariant ataliol

**39.** Nodir fel a ganlyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

> *"Gall chwaraeon fod yn adnodd ataliol effeithiol iawn o ran iechyd, ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor o ran cyfranogiad."*[39]

**40.** Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i frawddeg weddol debyg gael ei chynnwys. Rydym yn siomedig nad oedd y Gweinidog yn gallu rhoi sicrwydd i ni naill ai bod cynllun ar waith ar gyfer blaenoriaethu traws-sector o'r fath, na bod camau'n cael eu cymryd i ddatblygu cynllun o'r fath.

---

[36] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, argymhelliad 5
[37] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 246 a 248
[38] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 256
[39] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, 16 Ionawr 2025, tudalen 9

**41.** Rydym yn deall mai blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yw'r GIG.[40] Fodd bynnag, nodwn, yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, fod y Pwyllgor Cyllid wedi tynnu sylw at 'ddatblygiad pryderus' y cyfranwyr at ei waith, gan ddisgrifio:

> *"[…] tuedd yn dod i'r amlwg o ran symud cyllid i ffwrdd o atal er mwyn cyllido nod datganedig Llywodraeth Cymru o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen gymaint â phosibl."*[41]

**42.** Er ein bod yn deall y pwysau sydd ar wasanaethau rheng flaen, diben cyllido meysydd ataliol fel chwaraeon a diwylliant yw lleihau'r pwysau hynny. Mae aros i fuddsoddi mewn mesurau ataliol nes bydd gwasanaethau rheng flaen wedi eu cyllido'n ddigonol—pe bai'n bosibl cyrraedd pwynt o'r fath hyd yn oed—yn golygu bod pobl a chymunedau yng Nghymru yn colli manteision posibl iechyd a llesiant y boblogaeth a'r arbedion a allai ddod yn sgil buddsoddi'n gynharach yn y meysydd hynny.

**43.** Rydym yn croesawu cytundeb y Gweinidog yn ystod y sesiwn dystiolaeth i ystyried yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25[42] (ac a amlygwyd yn argymhelliad 2 ein hadroddiad diweddar) i:

> *"[…] ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth."*[43]

**44.** Yn ein barn ni, byddai dull o'r fath yn helpu i gydnabod a chyllido diwylliant a chwaraeon yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid, yn anad dim fel cyfryngau allweddol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

[40] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 163
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, paragraff 130
[42] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, argymhelliad 19
[43] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, argymhelliad 2

## Materion eraill

**45.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth nid oedd modd i ni ymdrin yn fanwl â'r holl faterion a gododd o Gyllideb Ddrafft 2025-26. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ar y pwyntiau a ganlyn:

a. Pa gyllid sydd wedi ei ddyrannu i'r sector cyhoeddi, ac a yw'r Gweinidog yn hyderus y bydd y dyraniad yn ddigonol i leddfu'r pwysau ar sector a ddisgrifiwyd ganddi hi ei hun i ni'n ddiweddar fel un sydd wedi ei 'wthio i'r eithaf'?[44]

b. Pa gyllid sydd wedi ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol?

c. Pa gyllid sydd wedi ei ddyrannu i sefydlu corff cynghori ar ddarlledu a chyfathrebu (fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024[45]), ac o fewn pa amserlenni mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn gwneud cyhoeddiadau pellach am y corff a'i waith?

d. Sut mae'r £1.1 miliwn o gyllid refeniw sydd wedi ei drosglwyddo o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darlledu a'r Cyfryngau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymru Greadigol wedi ei ddyrannu?

e. Pa gyllid refeniw a chyfalaf sydd wedi ei ddyrannu i'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol yn 2025-26, ac yn ôl y cynlluniau presennol, beth yw gofynion cyllido parhaus y prosiect hwn, a sut cânt eu bodloni?

**Argymhelliad 5.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 45 yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd nad oedd modd i ni eu harchwilio'n fanwl yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddi, y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, y corff cynghori darlledu a chyfathrebu, dyrannu cyllid a drosglwyddwyd o'r BEL Darlledu a'r Cyfryngau i BEL Cymru Greadigol, a chyllid ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.

[44] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, paragraff 140
[45] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: diweddariad ar ddarlledu, 12 Mawrth 2024

# 3. Y Gymraeg

## Trosolwg

**46.** Mae'r Gymraeg yn faes polisi trawsbynciol, gyda gwariant wedi ei ymgorffori ym mhortffolios gwahanol Weinidogion. Gan hynny, nid yw'n bosibl craffu ar bob dyraniad cyllid ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ein gwaith craffu ar y Camau Gweithredu yn y Gyllideb Ddrafft sy'n benodol i'r Gymraeg:

- Y Gymraeg: sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y Gymraeg, (gan gynnwys cyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050 i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sefydlu'r seilwaith cywir i ategu ei defnydd), a Chomisiynydd y Gymraeg;
- Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdod Lleol): sefydlwyd yn 2024-25, ac mae'r Grant hwn yn dwyn ynghyd nifer o grantiau awdurdodau lleol a chonsortia addysg;
- Y Gymraeg mewn Addysg: yn cyllido amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg (gan gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar drwy'r Gymraeg) a hynny drwy'r Mudiad Meithrin yn bennaf a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen e-sgol ac Adnodd (is-gwmni Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgol i ategu addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru).

**47.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod cyllid ar gyfer y Gymraeg ym mlwyddyn ariannol 2024-25 (y flwyddyn ariannol gyfredol) wedi ei ddiogelu i raddau helaeth rhag y gostyngiadau mae meysydd polisi eraill yn eu hwynebu. Dywedodd:

> *"Nawr, am y flwyddyn ariannol nesaf, bydd y gyllideb yn codi gyda £4.6 miliwn ychwanegol i fuddsoddi yn y maes Cymraeg. So, dydyn ni ddim yn gallu llenwi pob bwlch; dŷn ni ddim yn gallu mynd nôl i ble roeddem ni cyn y flwyddyn ariannol bresennol, ond rŷn ni yn gallu ailennill tir roeddem ni wedi'i golli, er enghraifft, gyda Chomisiynydd y Gymraeg. A byddwn ni*

> *mewn sefyllfa lot yn well flwyddyn nesaf nag yr oeddem ni'n ei hwynebu yn y flwyddyn ariannol hon."*[46]

**48.** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dyrannu £57.2 miliwn mewn cyllid wedi ei dargedu ar gyfer y Gymraeg ar draws y Camau Gweithredu penodol uchod. Mae hyn yn cyfateb i £3.6 miliwn o gynnydd ar Gyllideb Derfynol 2024-25 (£53.5 miliwn). Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £4.6 miliwn ychwanegol ar gyfer y Gymraeg, ond hefyd yn trosglwyddo £1.1 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon, sy'n rhan o'r MEG Addysg.

**49.** Y dyraniad ar gyfer Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdod Lleol) yw £8.6 miliwn, sy'n £1.1 miliwn o ostyngiad o gymharu â dyraniad 2024-25. Esbonnir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet bod y gostyngiad yn 'drosglwyddiad gweinyddol' o gyllid i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chymorth Athrawon sy'n adlewyrchu newidiadau mewn portffolios gweinidogol.[47] Dywedir hefyd yn y papur y bydd yr £1.1 miliwn yn dal i ategu dysgu proffesiynol i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg ac yn datblygu sgiliau iaith pob ymarferwr.

**50.** Mae tua dwy ran o dair o'r cyllid yn Llinell Wariant y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg (Grant Addysg Awdurdod Lleol), sef tua £5.9 miliwn, yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i ategu'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, ac uchelgeisiau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)[48] ("y Bil"). Deellir bod y £2.2 miliwn sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cael ei ddyrannu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu darpariaeth trochi hwyr yn y Gymraeg ledled Cymru.

## Cymorth i'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth

**51.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, er bod proses gyllidebol Llywodraeth Cymru yn berthnasol i un flwyddyn ariannol yn unig, roedd ef a'r Prif Weinidog wedi cytuno i ymrwymo cyllid ar gyfer "y degawd nesaf" i gyflawni'r uchelgeisiau a'r darpariaethau yn y Bil.[49]

**52.** Mae'r darpariaethau yn y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y sector statudol, ond maent hefyd yn ceisio dylanwadu ar

---

[46] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 8
[47] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Cyllidebau Iaith Gymraeg, 16 Ionawr 2025, tudalen 5
[48] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) [cyrchwyd 22 Ionawr 2025]
[49] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 85

deithiau iaith unigolion o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddysgu oedolion a datblygu sgiliau. Fe wnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet am y gwaith ymchwil academaidd mae Llywodraeth Cymru wedi ei gomisiynu ar y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned, ac a oes digon o adnoddau a/neu hyblygrwydd yn y gyllideb i ymateb i unrhyw newid ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth a allai ddod i'r amlwg. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, o dan yr amgylchiadau hynny, y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddargyfeirio cyllid o feysydd lle cafodd lai o effaith:

> *"Wel, mae hynny'n mynd i fod yn anodd achos does dim byd rŷn ni ei wneud yn bresennol dŷn ni ddim yn meddwl ei fod yn bwysig ac yn gwneud cyfraniad at bopeth rŷn ni eisiau ei wneud tuag at 2050. Os bydd pethau newydd yn dod mas o'r ymchwil, bydd penderfyniadau anodd i'w gwneud achos does dim lot o hyblygrwydd yn y cyllidebau sydd gyda ni, achos rŷn ni'n defnyddio pob ceiniog."*[50]

**53.** Buom yn trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet waith y mentrau iaith i ddod o hyd i ffyrdd o helpu pobl ifanc, yn enwedig, i fwynhau defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i addysg,[51] a gwaith yr Urdd ar hybu'r Gymraeg drwy chwaraeon.[52] Eglurodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod darpariaeth y mentrau iaith yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond yn aml mae'n cynnwys rhaglenni gwyliau ysgol, gwyliau lleol i helpu teuluoedd i ymgysylltu â diwylliant Cymraeg, a rhestrau chwarae cerddoriaeth Gymraeg i helpu i normaleiddio'r iaith.[53] Wrth ymateb i gwestiwn am effaith costau cynyddol ar allu sefydliadau i gyflawni'r math hwn o weithgarwch, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y pwysau ariannol, ond dywedodd fod ei drafodaethau â'r mentrau iaith yn awgrymu y byddai'r dyraniadau uwch yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn eu galluogi i ehangu eu gweithgareddau.[54]

---

[50] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 90 a 91
[51] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 41
[52] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 45
[53] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 49 i 50
[54] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 53

## Cyllido mentrau iaith

**54.** Ym mis Rhagfyr 2021, dywedodd cynrychiolydd mentrau iaith wrthym:

> *"Dydy cyllid craidd y mentrau ddim wedi cynyddu o gwbl yn yr wyth mlynedd diwethaf. Mi ydym ni'n llwyddiannus iawn yn dod â chyllid arall i mewn, fel dwi'n dweud, ond y mwyaf o gyllid craidd sydd gennym ni, y mwyaf o gyllid fydd yn dod i mewn eto."*[55]

**55.** Dywedir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"O ganlyniad i'r cynnydd yng nghyllideb y Gymraeg, cynigiwn fod y partneriaid sy'n derbyn grantiau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn derbyn cynnydd o 5% o leiaf yn 2025-26. Yn ogystal, bydd rhai sefydliadau'n derbyn cymorth ychwanegol i helpu i gynyddu eu heffaith ar amcanion Cymraeg 2050. Er enghraifft, cynigiwn y bydd isafswm y dyraniad grant i'r mentrau iaith yn cynyddu o £60k i £100k."*.[56]

**56.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cynnydd arfaethedig yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn golygu y byddai pob menter iaith yn cael o leiaf £0.1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai'r dyraniadau'n cael eu cynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol.[57] Dywedodd fod y mentrau iaith yn cael y rhan fwyaf o'u cyllid o ffynonellau eraill—er enghraifft, yn 2024-25 dim ond tua 30 y cant o'r cyllid a ddaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru—ond bod argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn eu helpu i gael mynediad at ffynonellau cyllid eraill:

> *"So, it's always been part of the purpose of the Welsh Government investment in the mentrau iaith that it enables them to secure alternative and other sources of funding, and they've been very successful in doing that.*
>
> *[...] The more money you have, the more able you are to raise money, because you've got the resources available to you to do*

---

[55] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 8 Rhagfyr 2021, paragraff 302
[56] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Cyllidebau Iaith Gymraeg, 16 Ionawr 2025, tudalen 7
[57] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 112

> *the work that brings the money in. It's the smaller mentrau iaith that have struggled more to increase the base of their funding and they will get the biggest uplift, the ones with the smallest grant at present, and that will help them to do the work that others have done in raising money elsewhere."*[58]

## Grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg

**57.** Yn 2018, sefydlwyd y grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a nodau Cymraeg 2050 ar waith.[59] Mae'r cyllid hwn ar wahân i'r Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Cyllido Addysg) sy'n gyllideb gyfalaf lawer mwy i wella ansawdd ysgolion (ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg).[60]

**58.** Cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet fod dros £128 miliwn o grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg wedi ei gymeradwyo hyd yma i "gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru". Nododd y byddai cam nesaf y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy yn ategu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, gyda gwariant yn y dyfodol o'r grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg "yn cael ei dargedu i ariannu meysydd blaenoriaeth fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, trochi, ehangu dros dro ac addysg i oedolion".[61]

**59.** Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg fel un o 'lwyddiannau mawr' y pum mlynedd diwethaf.[62] Gan nodi ei fod yn rhan o raglen dreigl ehangach ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, dywedodd fod hyblygrwydd y grant yn ei alluogi i gael ei ddefnyddio i ymateb i batrymau angen newidiol, gan gynnwys cynyddu darpariaeth trochi hwyr a chwrdd â lefelau cynyddol Anghenion Dysgu Ychwanegol:

> *"Most of that is not to do with buildings; most of that is to do with the astonishing commitment and skills of the teachers*

---

[58] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 114 i 115
[59] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: £30 miliwn ychwanegol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, 11 Mawrth 2021
[60] Llywodraeth Cymru, Rhaglen cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu [cyrchwyd 22 Ionawr 2025]
[61] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Cyllidebau Iaith Gymraeg, 16 Ionawr 2025, tudalen 20
[62] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 29

*who manage to make all of that happen and the ethos that they create within those units. But nevertheless, those children and those teachers do need physical premises as well, and because it's an expanding part of what we do, then we've used part of the capital grant to offer help to those local authorities who are maybe only just coming on stream with all of this and just getting the confidence of knowing that, if they make provision, there will be young people who will come forward to use it, and that they will be able to be turned into sufficiently confident Welsh speakers to be a part of Welsh-medium education. So, that's why we've put some extra priority on those strands within the programme this year and next year, because there is a growth in demand in those areas."*[63]

## Cylchoedd meithrin

**60.** Mae'r dyraniad ar gyfer Mudiad Meithrin wedi aros ar £3.0 miliwn ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys £0.5 miliwn ychwanegol ar gyfer Mudiad Meithrin. Dywedodd hefyd fod tua 150 o ymarferwyr yn cael eu darparu drwy raglen hyfforddi'r gweithlu Cam wrth Gam a gyllidir gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.[64]

**61.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged o sefydlu 150 o gylchoedd meithrin erbyn 2028, a bod y rhai sydd eisoes wedi eu sefydlu yn cynyddu eu darpariaeth o ran nifer y plant ac oriau cyswllt.[65]

**62.** Pan ofynnwyd iddo am adroddiadau y gallai rhai cylchoedd fod wedi cau neu mewn perygl o gau oherwydd pwysau ariannol neu staffio, dywedodd y swyddog:

*"Rydyn ni yn ymwybodol bod yna rai cylchoedd ddim yn parhau am beth wmbreth o wahanol resymau, ac rydyn ni'n monitro yn*

[63] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 31 i 33
[64] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 19
[65] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 17 i 18

*dymhorol efo'r mudiad i weld beth sy'n digwydd ar lawr gwlad."*[66]

## Ein barn ni

### Trosolwg

**63.** Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26. Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet bod y codiadau'n rhoi cyfle i "ailennill tir roeddem ni wedi'i golli" o ganlyniad i'r gyllideb sefydlog ym mlwyddyn ariannol 2024-25.[67]

**64.** Nodwn fod y cynnydd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn gyson â'r hyn a ddyrannwyd i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Rydym yn croesawu'r eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet fod y cynnydd uwch i Gomisiynydd Plant Cymru yn ymwneud yn benodol â chostau untro sy'n gysylltiedig â Modiwl 8 Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig.[68]

**65.** Mae gennym rai pryderon, fodd bynnag, am effaith bosibl y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ar bartneriaid trydydd sector sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys y mentrau iaith, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Nid yw'n glir pa gyfran o'r dyraniadau uwch fydd eu hangen i gwrdd â'r costau cynyddol hyn, yn hytrach na gwella neu ehangu lefelau gwasanaeth neu ddarparu gweithgareddau ychwanegol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa asesiad y mae wedi ei wneud i ddeall sut bydd y newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn effeithio ar bob sefydliad partner trydydd sector sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, a chyfran y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 a fydd yn cael ei amsugno gan y cynnydd.

### Cymorth i'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth

**66.** Rydym yn nodi'r ymrwymiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Weinidog i sicrhau cyllid digonol i weithredu Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) am y deng mlynedd nesaf, pe bai'n cael ei basio gan y Senedd. Fodd bynnag, rydym

[66] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 21
[67] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 8
[68] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraff 53

yn llai sicr ynghylch beth mae hyn yn ei olygu o ran gweithgarwch i annog defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, na'r hyblygrwydd a fydd ar gael yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod i gyllido gwaith o'r fath.

**67.** Nid oedd digon o amser ychwaith yn ystod ein sesiwn dystiolaeth i drafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet argaeledd a rôl cyllid cyfalaf o ran cefnogi'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, yn enwedig drwy sefydliadau fel yr Urdd.

**68.** Ym mis Rhagfyr 2024, lansiwyd ein hymchwiliad 'Cymraeg i Bawb?' i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd o Gymru sydd â llai o siaradwyr Cymraeg.[69] Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach gyda chymunedau, rhanddeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet wrth i'n hymchwiliad fynd rhagddo.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut bydd y dyraniadau cyllid cyfalaf yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn helpu i gefnogi defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am lefel y cyllid cyfalaf sydd ar gael, sut gall sefydliadau partner wneud cais am gyllid, sut caiff ceisiadau eu hasesu a'u blaenoriaethu, a sut caiff effaith unrhyw gyllid a ddarperir ei fonitro a'i werthuso o ran nodau Cymraeg 2050.

## Cyllid Mentrau Iaith

**69.** Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y mentrau iaith, a'r cadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd dyraniadau 2025-26 yn cael eu cynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol. Dylai hyn helpu i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau amgen, yn ogystal â chyllido gwaith yn uniongyrchol i gyflawni uchelgeisiau ac amcanion strategaeth a chynllun gweithredu Cymraeg 2050.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut, yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, y bydd yn monitro effaith y dyraniadau uwch ar gyfer y mentrau iaith, a sut mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth a chynllun gweithredu Cymraeg 2050.

[69] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cymraeg i bawb? [cyrchwyd 22 Ionawr 2025]

## Grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg

**70.** Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod adeiladau a chyfleusterau ffisegol priodol yn hanfodol i ddiwallu anghenion dysgwyr ac athrawon mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac yn cydnabod rôl y grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg wrth gyflawni hyn.

**71.** Rydym yn nodi blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer dyrannu cyllid o'r grant, a'r esboniadau a roddodd yn ystod y sesiwn dystiolaeth dros gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol a throchi fel meysydd blaenoriaeth. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r rhesymeg sy'n sail i'r blaenoriaethau hyn (a meysydd blaenoriaeth eraill lle gwelwyd ehangu dros dro ac addysg oedolion) wedi cael ei nodi yn ei bapur tystiolaeth.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut bydd effaith cyllid grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg ar gynnydd o ran cyflawni meysydd blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet, sef Anghenion Dysgu Ychwanegol, trochi, ehangu dros dro ac addysg oedolion, yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i hadrodd.

## Cylchoedd meithrin

**72.** Rydym yn nodi hyder Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y targed o sefydlu 150 o gylchoedd meithrin erbyn 2028 yn cael ei gyrraedd.[70] Rydym yn croesawu ei fod yn fodlon rhannu rhagor o wybodaeth â ni am sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd o ran sefydlu cylchoedd meithrin newydd a chynaliadwyedd hirdymor y rhai sydd wedi eu sefydlu.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro sefydlu cylchoedd meithrin newydd a'u cynaliadwyedd. Dylai hyn gynnwys manylion am faint o gylchoedd meithrin newydd sydd wedi cael eu hagor a faint o'r rhai hynny sydd wedi cau, a manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn asesu a yw'r cyllid a ddarperir yn effeithiol o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, ac unrhyw batrwm neu wersi i'w dysgu a nodwyd.

## Materion eraill

**73.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth nid oedd modd i ni ymdrin yn fanwl â'r holl faterion a gododd o Gyllideb Ddrafft 2025-26. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y pwyntiau a ganlyn:

---

[70] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Ionawr 2025, paragraffau 17 i 19

a. Sut bydd y £3.5 miliwn o gyllid a 'ailflaenoriaethwyd' o 2024-25, a ddyrannwyd yn wreiddiol i'r Coleg Cymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cael ei ddyrannu yn 2025-26? Pa lefel o gyllid a ddyrennir i bob sefydliad partner?

b. Pa asesiad sydd wedi ei wneud i fesur defnydd ac effaith cyllid ychwanegol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2024-25 i ehangu mynediad cynulleidfaoedd newydd at y Gymraeg, gan gynnwys teuluoedd incwm isel? Sut mae gwersi i'w dysgu wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26?

c. O fewn pa amserlenni mae Ysgrifennydd y Cabinet yn rhagweld y bydd yn dod i gytundeb ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y ffordd ymlaen ar gyfer cyllido a chyflawni Arfor 2?

**Argymhelliad 11.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 73 yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd nad oeddem yn gallu eu harchwilio'n fanwl yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â dyrannu cyllid wedi ei ailflaenoriaethu o flwyddyn ariannol 2024-25, asesiad o ddefnydd ac effaith cyllid ychwanegol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd i ehangu mynediad i gynulleidfaoedd newydd, a'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen a chyflawni Arfor 2.

# 4. Cysylltiadau Rhyngwladol

## Casglu tystiolaeth

**74.** Cawsom ddau gyflwyniad ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gwahoddwyd y Prif Weinidog i roi tystiolaeth lafar, ond gwrthododd. Roedd hyn yr un fath ag agwedd ei rhagflaenwyr at graffu ar y gyllideb cysylltiadau rhyngwladol yn y Chweched Senedd.

**75.** Mewn llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2024, tra'r oedd y Senedd ar doriad, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Rwy'n fwy na pharod i barhau i ateb unrhyw gwestiynau drwy ohebiaeth a byddaf yn croesawu sgwrs y flwyddyn nesaf yn y sesiwn graffu flynyddol [ym Mehefin 2025]".*[71]

**76.** Mae'n ofynnol i bwyllgorau'r Senedd gyflwyno adroddiad ar eu gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 erbyn 3 Chwefror 2025. Mae hyn yn unol â'r amserlen a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes yn dilyn hysbysiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg am y dyddiadau roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod ei chynigion cyllideb amlinellol a therfynol.

**77.** Nid yw hyn yn gadael digon o amser ar gyfer cyfnewid gohebiaeth, nac i aros tan yr adeg mae'r Prif Weinidog wedi cytuno i ymddangos ger ein bron ym mis Mehefin 2025. Gan hynny, mae ein gwaith craffu yn cael ei lywio'n bennaf gan lythyr y Prif Weinidog dyddiedig 20 Rhagfyr 2024.[72] Rydym hefyd wedi ystyried llythyr gan y Prif Weinidog a gawsom ar 28 Ionawr 2025.[73]

## Trosolwg o'r dyraniadau

**78.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn dyrannu £9.2 miliwn ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol ar draws dwy brif Linell Gwariant yn y Gyllideb (BEL):

- BEL Cysylltiadau Rhyngwladol: mae hyn yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, gweithgareddau a chymorth i swyddfeydd tramor (gan gynnwys eu costau rhedeg), a chyflawni

[71] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[72] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[73] Llythyr gan y Prif Weinidog – 28 Ionawr 2025

ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i gadw swyddfa ym Mrwsel a sefydlu Academi Heddwch. Mae hefyd yn cefnogi cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, partneriaethau strategol a hyrwyddo blynyddoedd 'Cymru yn';

- BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol: a enwyd yn flaenorol yn BEL Datblygu Rhyngwladol. Nid yw ffocws y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon wedi ei nodi'n glir yn nhystiolaeth y Prif Weinidog, er ein bod ar ddeall y bydd yn cynnwys cyflawni cynllun gweithredu Cymru ac Affrica a gwariant arall ar ddatblygu rhyngwladol—er enghraifft, rhoddion cymorth dyngarol.

## Y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol

**79.** £8.143 miliwn yw dyraniad Cyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, gan gynnwys £50,000 (0.6 y cant) o addasiad sylfaenol diwygiedig i gyfrif am gynnydd mewn costau cyflog a chyfraniadau pensiwn.[74] Darperir dadansoddiad lefel uchel o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Tabl 2.

***Tabl 2 Crynodeb o ddyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol***

| BEL Cysylltiadau Rhyngwladol 2025-26 | Dyraniad | BEL Cysylltiadau Rhyngwladol 2024-25 | Dyraniad |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu Rhyngwladol (gan gynnwys ymlyniadau tymor byr rhyngwladol)** | £2,708,600 | **Ymgysylltu Rhyngwladol** | £2,658,600 |
| **Gweithrediadau Tramor** | £4,684,400 | **Swyddfeydd tramor – costau rhedeg** | £4,684,400 |
| **Gweithgarwch Swyddfeydd Tramor** | £750,000 | **Swyddfeydd tramor – cyllideb gweithgareddau cyfunol** | £750,000 |
| **Cyfanswm** | **£8,143,000** | **Cyfanswm** | **£8,093,000** |

**80.** Yn ei thystiolaeth, cadarnhaodd y Prif Weinidog nad oedd dadansoddiadau a dyraniadau ychwanegol wedi eu pennu'n derfynol eto ar gyfer y canlynol:

- Ymgysylltu rhyngwladol;

[74] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024

- Pedwar cynllun gweithredu Strategaeth Ryngwladol;
- Swyddfeydd tramor;
- Cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth;
- Memoranda Cyd-ddealltwriaeth;
- Blynyddoedd hyrwyddo, gan gynnwys Cymru yn Japan 2025.[75]

**81.** Dywedodd y Prif Weinidog hefyd nad oedd cyllid ar gyfer partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru wedi ei gadarnhau, gyda thrafodaethau yn "parhau" ynghylch Academi Heddwch ac "opsiynau yn cael eu hystyried" ar gyfer Rhaglen Goed Mbale Maint Cymru.[76]

**82.** Nid yw'r dystiolaeth yn rhoi unrhyw arwydd o ba bryd mae'r Prif Weinidog yn rhagweld y bydd y dadansoddiadau, y dyraniadau na'r cyllid ychwanegol yn cael eu cadarnhau.

## Y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol

**83.** £1.050 miliwn yw dyraniad Cyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol. Mae'r dyraniad hwn yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu Cymru ac Affrica. Nid yw wedi bod yn destun addasiadau i'r llinell sylfaen yn debyg i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol gan nad oes costau staffio cysylltiedig. Nid yw'r dyraniad hwn wedi newid ers Cyllidebau Drafft a Therfynol 2024-25. Darperir dadansoddiad lefel uchel yn Tabl 3.

[75] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[76] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024

***Tabl 3 Crynodeb o'r dyraniadau ar gyfer Llinell Wariant y Gyllideb Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol***

| Cymru ac Affrica 2025-26 | Dyraniad | Cymru ac Affrica 2024-25 | Dyraniad |
|---|---|---|---|
| **Hub Cymru Affrica** | £349,000 (rhan o ddyfarniad grant 3 blynedd y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2024) | **Hub Cymru Affrica** | £349,000 |
| **Cynllun grantiau bach** | Hyd at £210,000 | **Cynllun grantiau bach** | £210,000 |
| **Prosiectau Plannu Coed Affrica Gyfan, gan gynnwys Rhaglen Goed Mbale Maint Cymru** | "Mae opsiynau yn cael eu hystyried" ond nid oes penderfyniad wedi ei wneud | **Maint Cymru/Plannu Coed Mbale** | £450,000 (roedd hyn yn rhan o grant o £550,000 i Maint Cymru, yn bennaf i gyflawni Rhaglen Plannu Coed Mbale, gyda rhywfaint o gyllid wedi ei ddyrannu i brosiect Coedwig Gymunedol Bore yn Kenya) |
| **Cymorth prosiect diogelu** | Heb ei ddyrannu eto | **Cytundeb diogelu** | £6,500 |
| **Prosiectau eraill** | Heb ei ddyrannu eto | **DEC** | £22,000 |
| | | **Clymblaid Mbale yn Erbyn Tlodi (CAP)** | £12,500 |
| **Cyfanswm** | **£1,050,000** | **Cyfanswm** | **£1,050,000** |

**84.** Yn flaenorol, roedd y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cynnwys £700,000 o'r Prif Grŵp Gwariant ("MEG") Cyfiawnder Cymdeithasol o dan gyfrifoldeb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, a £350,000 o drosglwyddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Cysylltiadau Rhyngwladol i gyflawni agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth Ryngwladol. Mae'r ddwy Linell Wariant yn y Gyllideb bellach wedi eu lleoli o fewn yr un MEG, heb unrhyw drosglwyddo o fewn y MEG i'w weld.

**85.** Roedd y BEL hon yn destun 23.6 y cant o ostyngiad rhwng Cyllideb Derfynol 2023-24 a Chyllideb Ddrafft 2024-25. Dywedodd y cyn Brif Weinidog, Vaughan

Gething AS, wrthym y byddai hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyfrannu at yr argyfwng dyngarol yn Gaza[77] a'i fod wedi arwain at roi'r gorau/saib ar rai o weithgareddau Cymru ac Affrica.[78]

## Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol

**86.** Ar 13 Rhagfyr 2024, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru a'i swyddogion ar lafar wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd cyhoeddi Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol. Eglurodd y Prif Weinidog y bydd y Cynllun Cyflawni yn:

- disodli'r cynlluniau ar gyfer gwaith adnewyddu disgwyliedig ar y Strategaeth Ryngwladol; a
- bydd yn nodi gweddill gweithgareddau'r Strategaeth Ryngwladol i'w cyflawni yng ngweddill y Chweched Senedd.[79]

**87.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn rhoi gwybodaeth am wariant arfaethedig o ran y Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu presennol. Fodd bynnag, mae'n nodi:

> *"Byddwn yn blaenoriaethu gwariant a gweithgareddau yn seiliedig ar yr hyn sydd i'w gyflawni a fydd yn cael ei nodi yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol y mae swyddogion wrthi'n ei baratoi. Bydd hwn yn nodi fy mlaenoriaethau o ran yr hyn sydd i'w gyflawni dros weddill oes estynedig y Strategaeth. Rydym yn blaenoriaethu ein gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n rhyngwladol gyda'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny lle y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru."*[80]

**88.** Rydym yn nodi bod y Prif Weinidog wedi awgrymu mewn llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2025 y byddai'n rhannu'r cynllun cyflawni â ni "yn ystod yr wythnosau nesaf".[81]

---

[77] Cofnod y trafodion, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Mehefin 2024, paragraff 78
[78] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[79] Cofnod y trafodion, Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog - 13 Rhagfyr 2024, paragraff 15
[80] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[81] Llythyr gan y Prif Weinidog – 28 Ionawr 2025

## Lefel y manylder

**89.** Ychydig o fanylion sydd yn nhystiolaeth y Prif Weinidog[82] o ran dadansoddiadau neu ddyraniadau terfynol, neu ar ganlyniadau, effaith a gwerth am arian yn ymwneud â gwariant mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft:

- Mae'n dangos bod yr alldro ar gyfer y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 £563,257 (6.8 y cant) yn is na'r hyn a gyllidebwyd, ond nid yw'n rhoi unrhyw esboniad a oedd hyn wedi deillio o arbedion, tanwariant neu gyfuniad o'r ddau, a oedd unrhyw weithgarwch a gynlluniwyd heb ei gyflawni, na chwaith a effeithiodd hyn ar gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

- Nid yw'n darparu unrhyw dystiolaeth o allbynnau cynlluniau gweithredu unigol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

- Prin yw'r wybodaeth am wariant arfaethedig ar gysylltiadau sy'n cael eu blaenoriaethu, ac mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â gwledydd neu ranbarthau nad ydynt wedi eu nodi fel cysylltiadau sy'n cael eu blaenoriaethu yn y Strategaeth Ryngwladol.

- Nid oes cyfeiriad at y £6.501 miliwn o ddyraniad ar gyfer 2025-26 yn BEL y Gyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol i helpu i gyflawni rhaglen pum mlynedd Taith (2022-26) Llywodraeth Cymru.

- Mewn ymateb i'n cais am sylwebaeth ar sut mae goblygiadau ariannol ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi llywio Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, ac ar wariant arfaethedig o dan ei chyfrifoldeb dros Gymru ac Ewrop, mae'r dystiolaeth yn dweud yn syml:

  *"Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y cyfnod pontio o'r UE wedi cael ei chau ac mae'r gyllideb a fu'n gysylltiedig â'r llinell hon gynt wedi cael ei chynnwys yn llinell sylfaen y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Rhedeg Adrannol/Costau Staff Llywodraeth Cymru yn 2024-25. Mae'r gwaith yn parhau drwy'r timau Cysylltiadau Rhyngwladol, y Rhwydwaith Tramor a Pholisi Masnach gan ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes."*[83]

[82] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[83] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024

## Tryloywder

**90.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, fe wnaeth y Prif Weinidog nifer o ddatganiadau lle na ddarperir unrhyw dystiolaeth ategol i ddangos bod cynllunio mewnol a chanlyniadau yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ryngwladol. Er enghraifft:

> *"Bydd pob cynllun yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ryngwladol ac yn helpu i gyflawni'r amcanion a'r cynlluniau gweithredu."*
>
> *"Ystyrir gwerth am arian ar gyfer yr holl weithgareddau a gynhelir a chaiff y polisïau priodol eu dilyn wrth gaffael gwasanaethau."*
>
> *"Caiff llwyddiant y mentrau hyn [swyddfeydd tramor] ei fesur drwy amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys asesiadau o'r effaith economaidd, cynnydd mewn masnach, a metrigau cyfnewid diwylliannol."*
>
> *"Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso penderfyniadau i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr drwy gynnal dadansoddiadau trylwyr o gostau a manteision. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ffactorau megis y potensial ar gyfer twf economaidd, cyfleoedd ar gyfer cyfnewid diwylliannol, ac ychwanegu at statws Cymru yn y byd. Drwy ddewis digwyddiadau sy'n cyd-fynd â'n hamcanion ar sail strategol, rydym yn sicrhau ein bod yn cael y manteision mwyaf ac yn sicrhau canlyniadau mesuradwy drwy gymryd rhan."*[84]

**91.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae pob Prif Weinidog dilynol wedi ein cyfeirio at adroddiadau rhwydwaith tramor Llywodraeth Cymru i fesur allbwn. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r adroddiadau hyn yn cysylltu â chamau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Oherwydd natur cysylltiadau rhyngwladol, gall allbynnau a chanlyniadau fod yn anodd eu mesur a'u mesur. Mae'r adroddiad rhwydwaith tramor blynyddol yn un yn unig o'r*

[84] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024

> *dulliau yr ydym wedi'u defnyddio i adrodd ar ein canlyniadau."*[85]

**92.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ymrwymodd y Prif Weinidog i sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael yn y Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol:

> *"There are areas within the strategy that are green, which have been done, they've been delivered. There are bits where it may be red and will continue to be red, and then we need to give you an explanation for why it is red. But there are lots of amber bits in there that we need to say, 'Right, come on, we've got 18 months left; let's get cracking, let's make sure we deliver on what we said we were going to do. So, that is very much the formula that I'm very keen to make sure that you have sight of, where it is we're delivering, and also where you need to hold us to account because we're not."*[86]

**93.** Nodwn fod y Prif Weinidog wedi dweud mewn llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2025:

> *"[...] fy mlaenoriaeth yw bod swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ymarferol yn hytrach nag adolygu neu ailysgrifennu strategaethau presennol. Yn hytrach, byddwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr sy'n dangos cynnydd clir yn erbyn tri amcan craidd y strategaeth ryngwladol."*[87]

## Ein barn ni

### Trosolwg

**94.** Rydym yn gresynu bod y Prif Weinidog wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar. Mae'r Prif Weinidog wedi dilyn ymagwedd ei rhagflaenwyr drwy beidio ag ymddangos yn bersonol er i ni fynegi pryderon dro ar ôl tro ynghylch yr ymagwedd hon, fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

---

[85] Llythyr gan y Prif Weinidog – 20 Rhagfyr 2024
[86] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog – 13 Rhagfyr 2024, paragraff 196
[87] Llythyr gan y Prif Weinidog – 28 Ionawr 2025

**95.** Mae'r Prif Weinidog yn atebol i'r Senedd am y maes polisi cysylltiadau rhyngwladol. Mae'r Senedd wedi rhoi cyfrifoldeb i'n Pwyllgor i graffu ar gamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**96.** Lle mae Prif Weinidogion eraill wedi dewis ysgwyddo cyfrifoldebau polisi yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau fel Prif Weinidog, rydym yn nodi eu bod hefyd wedi gwrthod gwahoddiadau o'r fath. Ein safbwynt ni o hyd yw mai mater i'r Senedd, nid Llywodraeth Cymru, yw penderfynu beth yw craffu priodol ac effeithiol, a sut dylid cynnal gwaith craffu o'r fath.

**97.** Er y gellir mynd i'r afael â rhai materion drwy dystiolaeth ysgrifenedig neu ohebiaeth, mae ystyried materion eraill yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol drwy drafodaeth mewn sesiwn tystiolaeth lafar.

**98.** Fel mater o egwyddor, os bydd Prif Weinidog yn dewis ysgwyddo cyfrifoldebau polisi, dylai sicrhau ei fod ar gael fel bod modd ei ddwyn i gyfrif am y cyfrifoldebau hynny. Os na all Prif Weinidog wneud hynny, dylai ystyried dirprwyo'r cyfrifoldebau hynny i Weinidog arall.

**Argymhelliad 12.** Yn unol â'n hargymhellion blaenorol ar y pwynt hwn a'r egwyddor o atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, lle bo'r pwyllgor perthnasol yn gofyn, bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn ymddangos yn bersonol ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol.

**99.** Yn absenoldeb tystiolaeth lafar, mae'n hanfodol bod y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir yn glir, yn fanwl ac o ansawdd uchel. Rhaid iddi ddarparu digon o wybodaeth a thystiolaeth am allbynnau, canlyniadau, effaith, a gwerth am arian a fwriedir.

**100.** Mae nifer y pwyntiau rydym wedi gofyn am eglurhad neu wybodaeth bellach eu cylch isod yn dangos nad yw hynny wedi bod yn wir. Rydym yn gresynu, unwaith eto, fod yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn nhystiolaeth y Prif Weinidog yn disgyn islaw'r safon rydym yn ei disgwyl, ac y buom yn galw amdani yn adroddiad y llynedd.[88]

**101.** Mae hwn yn bwynt difrifol; mae diffyg gwybodaeth angenrheidiol, ynghyd â diffyg cyfle mewn tystiolaeth lafar i archwilio ac egluro materion, yn golygu,

---

[88] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, Chwefror 2024, argymhelliad 2

unwaith eto, nad ydym mewn sefyllfa i graffu'n hyderus ar wariant arfaethedig ar weithgarwch rhyngwladol.

**102.** Rydym yn nodi bod un cyfle olaf yn parhau yn y Senedd hon i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n effeithiol â'n gwaith craffu ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, a sicrhau cydraddoldeb â phortffolios Gweinidogion eraill. Disgwyliwn welliant sylweddol y flwyddyn nesaf a phwysleisiwn na all y sefyllfa hon barhau i'r seithfed Senedd.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn ailadrodd ein hargymhellion blaenorol ar y mater hwn, sef bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod tystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb yn cynnwys:

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL, gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol;
- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol; ac
- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

### Lefel y manylder

**103.** Erys y gyllideb cysylltiadau rhyngwladol yn gymharol fach o gymharu â lefel yr uchelgais a nodir yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd â hi. Mae angen sicrwydd arnom fod y gwariant arfaethedig yn cael ei ddyrannu mewn meysydd a fydd yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Dim ond os darperir digon o fanylion y gallwn wneud hyn.

**104.** Yn ein hadroddiadau blynyddol ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 a Chysylltiadau Rhyngwladol, fe wnaethom bwysleisio'r angen am wybodaeth fanylach i gynorthwyo craffu effeithiol a galw am ddadansoddiad cynhwysfawr o'r gwariant arfaethedig.

**105.** Rydym yn siomedig na roddodd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Prif Weinidog ddigon o fanylion i ni i lywio gwaith craffu effeithiol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau:

- Pryd bydd dyraniadau cyllideb manwl ar gael ar gyfer Llinell Wariant y Gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol a Llinell Wariant y Gyllideb Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol;
- Sut bydd y dyraniadau terfynol yn effeithio ar gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

### Effaith ar bartneriaid strategol

**106.** Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, fe wnaethom fynegi pryderon ynghylch ymgynghori â phartneriaid strategol yn hwyr yn y broses o bennu'r gyllideb, gan roi pwysau gormodol arnynt. Er enghraifft, fe wnaethom nodi y gofynnwyd i bartneriaid cyflawni gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn ystod chwarter cyntaf 2024, ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a chwblhau gwaith craffu'r Senedd.[89]

**107.** Nid yw awgrym y Prif Weinidog bod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda phartneriaid fel yr Academi Heddwch a Maint Cymru yn rhoi hyder i ni fod y materion hyn wedi eu datrys. Yn hytrach, rydym yn dal i bryderu bod trafodaethau gyda phartneriaid cyflawni strategol yn dal i ddigwydd mor hwyr yng nghylch cynllunio'r gyllideb, ac am yr ansicrwydd a'r pwysau sy'n deillio o hynny.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Egluro pryd bydd y dyraniadau terfynol o ddadansoddiadau ar gyfer partneriaid cyflawni ar gael;
- Amlinellu pwy yw partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, a pha bartneriaid sydd wedi cyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni;
- Amlinellu pa bartneriaid cyflawni sydd wedi cael cadarnhad o'u cyllid, ac erbyn pryd y bydd yr holl bartneriaid cyflawni wedi cael cadarnhad;
- Nodi pa gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid yn ystod datblygu'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gan gynnwys pa gamau a gymerwyd cyn ac ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr 2024;

[89] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, Chwefror 2024, paragraff 36

- Rhoi manylion am ba gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os bydd partneriaid cyflawni yn adrodd yn Chwater 1 2025 bod unrhyw ostyngiad mewn dyraniadau yn arwain at gyllid annigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Strategaeth Ryngwladol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau y gellir eu cymryd ar gyfer cylchoedd cyllideb yn y dyfodol i ymgysylltu â phartneriaid cyflawni strategol mewn da bryd i alluogi craffu ar fanylion y dyraniadau arfaethedig fel rhan o broses y Gyllideb Ddrafft.

## Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol

**108.** Darparodd tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog rywfaint o wybodaeth am wariant arfaethedig ar sail y Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu presennol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai cyllid a gweithgarwch yn cael eu blaenoriaethu ar sail y Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol a ragwelir.

**109.** Rydym yn croesawu'r arwydd a roddwyd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2024 y bydd y Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol, pan gaiff ei gyhoeddi, yn nodi'n glir ei blaenoriaethau ar gyfer cyflawni. Rydym hefyd yn croesawu arwydd y Prif Weinidog ei bod hi'n disgwyl i'r Senedd ei dwyn i gyfrif am gyflawni'r Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol, a'i hymrwymiad i roi diweddariad llawn ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni a'r hyn sydd ar ôl i'w gyflawni.[90]

**110.** Fodd bynnag, heb eglurder ynghylch y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni, na sut caiff cyllid ei ddyrannu i'r blaenoriaethau hynny, ni allwn asesu priodoldeb dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 i ategu naill ai cyflawni Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru neu'r Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol.

**111.** Rydym yn nodi bod y Prif Weinidog wedi awgrymu mewn llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2025 ei bod yn bwriadu rhannu'r Cynllun Cyflawni "yn ystod yr wythnosau nesaf", a'i chynnig i swyddogion Llywodraeth Cymru roi briff technegol i ni.[91] Mae'n parhau i fod yn aneglur a fydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei gyhoeddi cyn y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'n hadroddiad, nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

---

[90] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog – 13 Rhagfyr 2024, paragraff 196
[91] Llythyr gan y Prif Weinidog – 28 Ionawr 2025

**Argymhelliad 18.** Wrth gyhoeddi'r Cynllun Cyflawni, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu'r canlynol i ni:

- Dadansoddiadau wedi eu diweddaru o wariant arfaethedig o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ac unrhyw BEL perthnasol arall. Dylai hyn ddod gydag esboniadau clir o sut mae pob dyraniad yn berthnasol i'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni;
- Eglurder ynghylch a fydd dyraniadau Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol yn effeithio ar wariant arfaethedig mewn mannau eraill yn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, ac os felly, sut; a
- Gwybodaeth am sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu rhwng cynlluniau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

## Tryloywder

**112.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2024-25, fe wnaethom dynnu sylw at yr angen am fwy o dryloywder wrth gynllunio a chyflawni amcanion cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys galw am sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn rhwydd am y canlyniadau a'r allbynnau a ddisgwylir o ddyraniadau'r gyllideb ddrafft.

**113.** Nid yw tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn cynnwys unrhyw wybodaeth am ganlyniadau o flwyddyn ariannol gyfredol Llywodraeth Cymru nac allbynnau disgwyliedig. Heb yr wybodaeth hon, nid ydym wedi gallu asesu canlyniadau, yr hyn y gellir ei gyflawni na gwerth am arian mewn perthynas â gwariant.

**114.** Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn yn adleisio ein pryderon hirsefydlog ynghylch y diffyg eglurder mewn Cyllidebau Drafft blaenorol.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth i ni am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol y cyfeiriodd y Prif Weinidog ati ar 13 Rhagfyr 2024 mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

## Materion eraill

**115.** Yn ogystal â'r materion a godwyd uchod, rydym hefyd wedi nodi'r materion a ganlyn y mae angen eglurhad neu wybodaeth bellach arnynt:

a. A yw'r cyfrifoldeb dros Ddatblygu Cynaliadwy Rhyngwladol, a oedd gynt yn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol, bellach yn nwylo'r Prif Weinidog?

b. A oedd y £563,257 o wahaniaeth rhwng cyllideb ac alldro'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24 yn deillio o arbedion, tanwariant neu gyfuniad o'r ddau, a sut cafodd hwn ei ailddyrannu? A fethwyd â chyflawni unrhyw weithgarwch cysylltiadau rhyngwladol o ganlyniad, ac a oedd unrhyw oblygiadau i hyn o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru?

c. A yw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn dal i gynnwys £350,000 o drosglwyddiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol (nas dangosir yn y Gyllideb Ddrafft), ynteu a yw'r trosglwyddiad yn ddiangen erbyn hyn (gyda'r canlyniad bod y ddwy Linell Wariant yn y Gyllideb wedi cynyddu £350,000)?

d. A all y gweithgarwch a gyllidwyd drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol a gafodd ei oedi/ei ddiweddu o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb ym mlwyddyn ariannol 2024-25 ailddechrau yn awr, ynteu a fydd y dyraniadau a ddisgrifiwyd gan y Prif Weinidog yn ei thystiolaeth ysgrifenedig yn cyfrannu at weithgarwch presennol yn unig?

e. A yw dyraniadau'n cael eu hystyried ar gyfer ymateb i wrthdaro byd-eang ac apeliadau brys rhyngwladol, ac os felly, pryd bydd rhagor o wybodaeth ar gael?

f. Rhagor o wybodaeth am wariant arfaethedig mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Prif Weinidog dros Gymru ac Ewrop, goblygiadau ariannol gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru, sut mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi llywio Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol.

g. Pryd bydd y dyraniadau terfynol ar gyfer BEL y Gyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol ar gael, a pha ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i gyllido Taith yn y dyfodol y tu hwnt i 2026?

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 115 yn yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd y mae angen rhagor o eglurhad neu wybodaeth arnynt. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb dros Ddatblygu Cynaliadwy Rhyngwladol; y gwahaniaeth rhwng cyllideb BEL Cysylltiadau Rhyngwladol a'r alldro yn 2023-24; a yw'r BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn dal i gynnwys trosglwyddiad o £350,000 o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol; a all gweithgarwch a gyllidwyd drwy'r BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol a gafodd ei oedi/ei derfynu o ganlyniad i doriadau cyllidebol ailddechrau yn awr; ymateb i wrthdaro byd-eang ac apeliadau brys rhyngwladol; gwariant arfaethedig mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Prif Weinidog dros Gymru ac Ewrop; a'r BEL Cyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol a chyllid ar gyfer Taith.

# 5. Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Wrth ymateb i argymhelliad 1 ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 dan y teitl ‘Degawd o doriadau: effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon’, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw’n rhannu ein huchelgais i gyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg. ........................................................ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gadarnhau fel mater o frys yr amserlenni ar gyfer sicrhau eglurder gan gyrff hyd braich yn y sector diwylliant, chwaraeon a’r amgylchedd hanesyddol ynghylch a fyddant yn gymwys i gael unrhyw gymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru i dalu am gyfraniadau yswiriant gwladol uwch cyflogwyr;
- Ysgrifennu atom o fewn pedair wythnos i’r adeg y caiff Llywodraeth Cymru gadarnhad o’r cymorth a fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i amlinellu ar gyfer pob un o’r cyrff hyd braich pa gyfran o’r costau sy’n gysylltiedig â’r cynnydd a fydd yn cael ei thalu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru, a pha gyfran y bydd angen i bob corff ei thalu o’i ddyraniad refeniw.

........................................................ Tudalen 13

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Yn ei hymateb i’n hadroddiad, roi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o’r berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddewisiadau sy’n dod i’r amlwg, a’r amserlenni a ragwelir ar gyfer penderfyniad terfynol a gweithredu;
- Ymrwymo i roi gwybodaeth i ni’n flynyddol am weithrediad, perfformiad a gwariant Cadw........................................................ Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y broses ar gyfer cael mynediad at gyllid cyfalaf drwy’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gan gynnwys sut caiff prosiectau eu blaenoriaethu a pha geisiadau sydd wedi eu cyflwyno (neu sy’n cael eu paratoi) ar gyfer prosiectau o fewn y sector diwylliant, chwaraeon a’r amgylchedd hanesyddol. ........................................ Tudalen 15

**Argymhelliad 5.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 45 yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd nad oedd modd i ni eu harchwilio'n fanwl yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddi, y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, y corff cynghori darlledu a chyfathrebu, dyrannu cyllid a drosglwyddwyd o'r BEL Darlledu a'r Cyfryngau i BEL Cymru Greadigol, a chyllid ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa asesiad y mae wedi ei wneud i ddeall sut bydd y newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn effeithio ar bob sefydliad partner trydydd sector sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, a chyfran y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 a fydd yn cael ei amsugno gan y cynnydd. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut bydd y dyraniadau cyllid cyfalaf yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn helpu i gefnogi defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am lefel y cyllid cyfalaf sydd ar gael, sut gall sefydliadau partner wneud cais am gyllid, sut caiff ceisiadau eu hasesu a'u blaenoriaethu, a sut caiff effaith unrhyw gyllid a ddarperir ei fonitro a'i werthuso o ran nodau Cymraeg 2050........ Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut, yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, y bydd yn monitro effaith y dyraniadau uwch ar gyfer y mentrau iaith, a sut mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth a chynllun gweithredu Cymraeg 2050. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut bydd effaith cyllid grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg ar gynnydd o ran cyflawni meysydd blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet, sef Anghenion Dysgu Ychwanegol, trochi, ehangu dros dro ac addysg oedolion, yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i hadrodd........ Tudalen 26

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro sefydlu cylchoedd meithrin newydd a'u cynaliadwyedd. Dylai hyn gynnwys manylion am faint o gylchoedd meithrin newydd sydd wedi cael eu hagor a faint o'r rhai hynny sydd wedi cau, a manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn asesu a yw'r cyllid a ddarperir yn effeithiol o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, ac unrhyw batrwm neu wersi i'w dysgu a nodwyd........ Tudalen 26

**Argymhelliad 11.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 73 yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd nad oeddem yn gallu eu harchwilio'n fanwl yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â dyrannu cyllid wedi ei ailflaenoriaethu o flwyddyn ariannol 2024-25, asesiad o ddefnydd ac effaith cyllid ychwanegol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd i ehangu mynediad i gynulleidfaoedd newydd, a'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen a chyflawni Arfor 2. ................ Tudalen 27

**Argymhelliad 12.** Yn unol â'n hargymhellion blaenorol ar y pwynt hwn a'r egwyddor o atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, lle bo'r pwyllgor perthnasol yn gofyn, bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn ymddangos yn bersonol ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol. ................ Tudalen 36

**Argymhelliad 13.** Rydym yn ailadrodd ein hargymhellion blaenorol ar y mater hwn, sef bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod tystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb yn cynnwys:

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL, gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol;
- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol; ac
- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau:

- Pryd bydd dyraniadau cyllideb manwl ar gael ar gyfer Llinell Wariant y Gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol a Llinell Wariant y Gyllideb Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol;
- Sut bydd y dyraniadau terfynol yn effeithio ar gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru................ Tudalen 38

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Egluro pryd bydd y dyraniadau terfynol o ddadansoddiadau ar gyfer partneriaid cyflawni ar gael;
- Amlinellu pwy yw partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, a pha bartneriaid sydd wedi cyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni;
- Amlinellu pa bartneriaid cyflawni sydd wedi cael cadarnhad o'u cyllid, ac erbyn pryd y bydd yr holl bartneriaid cyflawni wedi cael cadarnhad;
- Nodi pa gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid yn ystod datblygu'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gan gynnwys pa gamau a gymerwyd cyn ac ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr 2024;
- Rhoi manylion am ba gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os bydd partneriaid cyflawni yn adrodd yn Chwater 1 2025 bod unrhyw ostyngiad mewn dyraniadau yn arwain at gyllid annigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Strategaeth Ryngwladol. ................................ Tudalen 39

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau y gellir eu cymryd ar gyfer cylchoedd cyllideb yn y dyfodol i ymgysylltu â phartneriaid cyflawni strategol mewn da bryd i alluogi craffu ar fanylion y dyraniadau arfaethedig fel rhan o broses y Gyllideb Ddrafft. ................................ Tudalen 39

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'n hadroddiad, nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

................................ Tudalen 39

**Argymhelliad 18.** Wrth gyhoeddi'r Cynllun Cyflawni, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu'r canlynol i ni:

- Dadansoddiadau wedi eu diweddaru o wariant arfaethedig o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ac unrhyw BEL perthnasol arall. Dylai hyn ddod gydag esboniadau clir o sut mae pob dyraniad yn berthnasol i'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni;

- Eglurder ynghylch a fydd dyraniadau Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol yn effeithio ar wariant arfaethedig mewn mannau eraill yn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, ac os felly, sut; a
- Gwybodaeth am sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu rhwng cynlluniau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol........Tudalen 40

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth i ni am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol y cyfeiriodd y Prif Weinidog ati ar 13 Rhagfyr 2024 mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

........Tudalen 40

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 115 yn yr adroddiad hwn, sy'n ymdrin â meysydd y mae angen rhagor o eglurhad neu wybodaeth arnynt. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb dros Ddatblygu Cynaliadwy Rhyngwladol; y gwahaniaeth rhwng cyllideb BEL Cysylltiadau Rhyngwladol a'r alldro yn 2023-24; a yw'r BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn dal i gynnwys trosglwyddiad o £350,000 o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol; a all gweithgarwch a gyllidwyd drwy'r BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol a gafodd ei oedi/ei derfynu o ganlyniad i doriadau cyllidebol ailddechrau yn awr; ymateb i wrthdaro byd-eang ac apeliadau brys rhyngwladol; gwariant arfaethedig mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Prif Weinidog dros Gymru ac Ewrop; a'r BEL Cyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol a chyllid ar gyfer Taith. ........Tudalen 42

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar 16 Ionawr 2025. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **16 Ionawr 2025** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jason Thomas – Cyfarwyddwr, Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chymru Greadigol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ruth Meadows - Cyfarwyddwr, Addysg Drydyddol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Nicky Guy - Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Steffan Roberts - Dirprwy Gyfarwyddwr y Celfyddydau a Chwaraeon**<br>Llywodraeth Cymru |